Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Apwyntiadau â Chynghorwyr - Beth i'w Ddisgwyl

**Beth yw rôl Cynghorydd Cyflogadwyedd?**

Mae ein Cynghorwyr yn weithwyr proffesiynol profiadol sydd wedi'u hyfforddi i'ch helpu i archwilio a rhoi cynllun ar eich dyheadau gyrfa, yn ogystal â rhoi cyngor a sylwadau ymarferol ynghylch CVs, ceisiadau am swyddi a chyfweliadau.

Bydd cynghorwyr yn eich helpu gydag unrhyw gwestiynau gyrfa a all fod gennych, gan gynnwys:

- Dydw i ddim yn gwybod beth ydw i eisiau’i wneud. Sut mae penderfynu?
- Beth yw'r opsiynau gyda fy mhwnc gradd?
- Rydw i eisiau cael profiad gwaith, ond dydw i ddim yn gwybod sut/ble i ddechrau.
- Ydy fy CV yn ddigon da?
- Sut ddylwn i fynd at gyflogwr/wneud cais am swydd wag /baratoi at gyfweliad?
- Rwy'n gwneud ceisiadau am swyddi ond ddim yn cael unrhyw lwc - sut alla i wella ar fy nghyfle?
- Mae gen i ddiddordeb mewn astudio ymhellach, ond a fydd hynny'n werth chweil?

Fel rheol mae angen 2-3 apwyntiad clinig ar fyfyrwyr dros gyfnod o flwyddyn - os ydych chi'n teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnoch chi, siaradwch â'ch Cwnselydd.

**Beth sy'n digwydd yn ystod apwyntiad?**

Mae apwyntiad ar ffurf sgwrs anffurfiol, gyfrinachol er mai chi fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r siarad. Rôl y Cynghorydd yw gwrando arnoch chi a hwyluso'r drafodaeth, yn hytrach na'i harwain. Bydd yn gofyn cwestiynau arweiniol i'ch helpu i adfyfyrio a blaenoriaethu, archwilio syniadau a phosibiliadau a chymryd camau cadarnhaol.

Yn ystod eich apwyntiad, gall Cynghorydd:

- helpu i dynnu sylw at eich blaenoriaethau, gwerthoedd a disgwyliadau
- herio eich cymhellion yn ysgafn
- eich annog i adfyfyrio ar yr hyn rydych eisoes wedi'i wneud

- eich helpu i ddatblygu eich dealltwriaeth o'r llwybrau rydych wedi'u dewis
- eich helpu i bwyso a mesur eich opsiynau
- gwneud awgrymiadau am adnoddau, strategaethau, sectorau neu lwybrau posibl

Yn aml bydd yn syndod i fyfyrwyr (ac weithiau'n siom) nad yw'r Cynghorydd yn cynnig gwybodaeth fanwl iddynt nac yn dweud wrthynt beth i'w wneud.

Er bod y Cynghorwyr yn wybodus iawn, ac yn defnyddio'r wybodaeth honno i'ch helpu chi, dim ond chi all benderfynu beth sy'n iawn i chi. Mae gwneud eich ymchwil eich hun yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau - ac rydym yma i gynnig argymhellion ac anogaeth!

Ni all Cynghorydd wneud y canlynol:

- gwneud penderfyniad ar eich rhan ynglŷn â pha opsiwn/llwybr i'w gymryd
- dweud wrthych pa swyddi a fydd yn addas i chi na'r hyn y byddwch yn mwynhau ei wneud
- dweud wrthych pa gyflogwyr sy'n recriwtio
- dweud popeth y byddwch angen ei wybod am yr yrfa a ddewisir gennych
- Bydd deall hyn yn eich helpu i wneud y gorau o'ch apwyntiad.

**Sut mae gwneud y gorau o'r apwyntiad?**

I wneud y gorau o'ch apwyntiad rhaid i chi baratoi ychydig ymlaen llaw.

Os nad ydych yn gwybod sut i ddechrau meddwl am eich gyrfa, mae hynny'n iawn. Gall y Cynghorydd eich helpu gyda hyn, yn arbennig os ydych yn poeni am sut a ble i ddechrau. Cofiwch mai dim ond eich helpu i gymryd ychydig gamau ymlaen a ellir ei wneud ym mhob apwyntiad.

Os oes gennych gwestiynau mwy penodol, bydd gwneud ychydig o ymchwil a pharatoad ymlaen llaw yn golygu y gallwch ddatblygu eich ymholiad y tu hwnt i'r pethau sylfaenol a gwneud y gorau o arbenigedd y Cynghorwyr.

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Er enghraifft:

- Os oes angen cymorth arnoch chi gyda CV, datganiad personol neu lythyr cais, edrychwch ar ein hadnoddau ar-lein am ganllawiau/enghreifftiau cyn llunio neu wella'ch dogfennau, yna dewch â'ch dogfennau i'r apwyntiad. Bydd cael y pethau sylfaenol yn gywir ymlaen llaw yn eich helpu i ofyn cwestiynau penodol, wedi'u targedu i'r Cynghorwr, a derbyn sylwadau ac argymhellion penodol.

- Os ydych am archwilio llwybr gyrfa penodol, mae gwneud ychydig o ymchwil ymlaen llaw yn golygu y gallwch ofyn cwestiynau manylach yn ystod eich apwyntiad, a gall eich Cynghorydd gynnig arweiniad â mwy o ffocws.

**Beth os mai dim ond angen gwybodaeth ydw i?**

Os mai gwybodaeth sydd ei hangen arnoch chi, efallai na fydd angen Apwyntiad Cynghorydd arnoch o gwbl.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth ac adnoddau helaeth, gan gynnwys taflenni, cysylltiadau defnyddiol, enghreifftiau a thiwtorialau ar-lein ar yr **Hwb Cyflogadwyedd.** Os ydych wedi graddio ac nad oes gennych fynediad i FyMangor mwyach, gellir dod o hyd i'r rhain yn adran 'Adnoddau' *TARGETconnect*.

Rydym hefyd yn cynnal gweithdai a gweminarau ar-lein (bydd y gweithdai'n cael eu cynnal ar y campws maes o law) i gynnig arweiniad a gwybodaeth ddefnyddiol i gnoi cil arno, a hynny ar bob agwedd ar gyflogadwyedd.

*diweddarwyd Gorffennaf 2022*